Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, Tachwedd 3ydd, 2016 yn brydlon am 7-00 y.h. yn NEUADD LLANYSTUMDWY

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Hydref 6ed, 2016.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
    1. Gwasanaethau Cyfreithiol; Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed rhif 67 yng Nghymuned Llanystumdwy) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2016; Tir ger Tan y Buarth, Chwilog.
    2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant; Ynglŷn â Cyfrif y nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd 2016.
6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.
    1.Cais Rhif C16/1240/41/LL – Cais i godi ports ar yr annedd presennol ynghyd a modurdy gyda ystafell chwaraeon uwchben; Safle Hen Gapel Moriah, Llanystumdwy.
    2. Cais Rhif C16/1244/41/LL –Estyniad i'r dderbynfa; Ocean Heights Caravan Park, Pen y Bryn, Chwilog.
    3. Cais Rhif C16/1239/41/LL – Diwygiad i gais a wrthodwyd o dan C16/0407/41/LL ar gyfer creu safle carafanau teithiol newydd 17uned, ail leoli 2 uned statig bresennol, codi block toiledau a gosod tanc septic a darparu llecynnau pasio; Swn y Don, Afonwen, Chwilog.
    4. Cais Rhif C16/1363/41/AM – Cais amlinellol ar gyfer codi 9 ty sy'n cynnwys 3 ty fforddiadwy ynghyd a darparu mynedfa a lon stad; Cae Bodlondeb, ger Ael y Bryn, Chwilog.
7. **Materion yn y gymuned**.

Llanarmon

Rhoslan

Y ffordd heibio ceg lôn Tyddyn Gwyn am Ffatri. Gair gan y Cynghorydd Tegid Jones.

Chwilog

Llwybrau ochr y ffordd allan o Chwilog am Afonwen,Llanarmon a'r Lôn Goed. Gair gan y Cynghorydd Aled Lloyd Evans.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi

1.Llwybr Pont Merchaid.
2. Yr hysbysfwrdd ger yr ysgol.

Llanystumdwy

8. Llwybr Clawdd Llanw o Bont Fechan i Ty'n Morfa.
9. Tir y Cyngor gyferbyn â rhes tai Maenywern yn Llanystumdwy.
10. Meysydd Chwarae Cymru; arolwg o Gae Chwarae Troed y Garn, Llangybi.
11. Fferm solar Tyddyn Gwyn.
12. Gwasanaeth iechyd tu allan i oriau.
13. Comisiwn Ffiniau i Gymru; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, cynigion cychwynnol. Wedi anfon cyfeiriad y wefan atoch yn barod www.comffin-cymru.gov.uk
14. Hyfforddiant Un Llais Cymru.

15. Banc Bwyd Pwllheli; cais am gefnogaeth i'w cynlluniau a'r angen am y gwasanaethau yma yn yr ardal.
16.Grant Cist Gymunedol. Gair gan y Cynghorydd Aled Lloyd Evans.
17. Gwasanaeth Cymraeg Scottish Power; gair gan y Cynghorydd Gwilym M Thomas.
18. Arolwg o gyflwr meinciau'r Cyngor; mae dwy ar y llwybr ger y briffordd o Lanystumdwy am Gricieth, un ger mynedfa Stâd Cae Capel yn Chwilog, un yn y Cae Chwarae yn Llangybi.Os gwelwch yn dda wnewch chi fwrw golwg ar eu cyflwr cyn cyfarfod nos Iau.

Materion Ariannol.
19. Llythyr oddi wrth yr Archwilwyr Allanol BDO LLP ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.
20.Gohebiaeth oddi wrth Un Llais Cymru ynghylch Archwiliadau Allanol BDO.
21. Adroddiad ariannol ar lafar.
22. Anfoneb angen ei dalu
    Atkin Groundworks Ltd. am drwsio'r swing yng Nghae Chwarae Llangybi; £25-+TAW = £30-. Taliad BACS.
23. a. Lwfansau i Gynghorwyr Cymuned a Thref am 2017/18, wedi anfon y linc atoch, adran 13 sydd yn berthnasol.
    b. Gair oddi wrth Glerc Cyngor Tref Pwllheli ynghylch hyn ynghylch hyn.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.